# Uwch Gyfreithiwr

Mae gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol rolau hyblyg sy'n galluogi ein pobl i roi eu gorau, ehangu eu sgiliau a rheoli eu llwybr gyrfa. Ni fwriedir i'r proffil swydd hwn fod yn rhestr gynhwysfawr o'ch dyletswyddau, yn hytrach mae'n rhoi amlinelliad i chi o'r hyn y bydd eich rôl yn ei gynnwys. Chi fydd yn gweithio gyda'ch cydweithwyr i ddatblygu a siapio eich gwaith yn unol â'n hamcanion strategol ac amcanion eich tîm.

## Uwch Gyfreithiwr

### *Ein rheolwyr*

Fel rheolwr yn y Gronfa, beth bynnag yw eich arbenigedd, byddwch chi’n arwain ac yn rheoli naill ai tîm o bobl neu faes gwaith, neu’r ddau, a hynny’n rhagweithiol. Byddwch chi’n atebol am lefel uchel o berfformiad, gan osod y safon i eraill ei ddilyn, rhoi ein cwsmeriaid yn gyntaf a chefnogi ein meddylfryd cyffredin i gyflawni ein hamcanion strategol.

Bydd eich sgiliau rheoli pobl yn cael eu dwyn i’r amlwg a bydd eich gallu i feithrin, hyfforddi, ysbrydoli a grymuso pobl yn gryf, gan gefnogi amgylchedd gwaith adeiladol a chadarnhaol. Bydd eich sgiliau rheoli prosiect yr un mor gryf, gyda’r gallu i ddirprwyo pan fo angen, a bydd eich penderfyniadau’n cael eu hysbysu gan ddadansoddi cadarn ac asesu beirniadol. Trwy ymgysylltu a rheoli rhanddeiliaid yn effeithiol, byddwch chi’n darparu gwasanaeth gwych i gwsmeriaid ac yn defnyddio adborth i wella’r hyn yr ydym yn ei wneud gan ddefnyddio eich dysgu a’ch profiad eich hun hefyd.

### *Eich rôl*

Yn y rôl benodol hon, byddwch chi’n adrodd i Bennaeth eich swyddogaeth (Cytundebau, Gwybodaeth a Dadleuon). Bydd gwybodaeth helaeth gennych am eich maes arbenigedd a byddwch chi’n defnyddio hynny yn y Gronfa er mwyn herio’r sefydliad i weithio’n effeithiol ac effeithlon.

Byddwch chi’n darparu cefnogaeth a chyngor arbennig i’r Gronfa a’i gleientiaid cydwasanaethau i’w galluogi i gydymffurfio â fframweithiau statudol a rheoleiddiol a rheoli risgiau cyfreithiol yn eich maes arbenigol. Byddwch chi’n meithrin perthnasoedd gwych ac yn adeiladu rhwydweithiau gyda rheolwyr ar draws y Gronfa, felly ystyrir y tîm fel partneriaid busnes gwerthfawr ac ymgysylltiol yn ystod y camau cyntaf.

Byddwch chi’n drafftio a/neu negodi dogfennau a deunyddiau sy’n adlewyrchu arferion da er mwyn diogelu’r Gronfa rhag risgiau cyfreithiol, arfer ei hawliau cyfreithiol a/neu roi gwerth am arian.

Mae datblygu a chynnal deunyddiau blaenorol i reoli risgiau cyfreithiol a chydymffurfiad a/neu roi gwerth am arian, sy’n addas at y diben ac yn gyfeillgar i ddefnyddwyr yn unol â fframwaith strategol y Gronfa, yn ogystal â chynnal cofnodion a bod yn gyfrifol am gydymffurfiad o ran

adrodd/cofrestru/gofynion hysbysu sy'n berthnasol i'ch maes arbenigol hefyd yn ofynnol ar gyfer y rôl hon.

Byddwch chi'n rheoli ac yn darparu prosiectau cyfreithiol a/neu gydymffurfio yn eich meysydd arbenigol, gan weithredu fel aelod tîm prosiect allweddol ar brosiectau aml-adran.

Byddwch chi'n hyrwyddo a gweithredu arferion gorau yn y tîm, gan wneud cynigion rhagweithiol er mwyn symleiddio dulliau a phrosesau, codi proffil y tîm a bod yn enghraifft o ddull partner busnes yn unol â Fframwaith Strategol y Gronfa. Byddwch chi'n dylanwadu ac yn trafod telerau gydag uwch reolwyr ar draws y sefydliad. Ynghyd â hynny, byddwch chi'n mentora aelodau iau o'r tîm a gweinyddwyr er mwyn eu galluogi i ddatblygu.

Mae ymgysylltu â chynlluniau strategol ehangach a datblygiadau polisi ar draws y Gronfa a chadw'n gyfredol o ran datblygiadau yn eich maes arbenigol yn hanfodol i'r rôl, yn ogystal â darparu hyfforddiant a chyfathrebiadau mewnol rheolaidd i staff ac aelodau'r tîm.

Byddwch chi'n gweithio'n agos ac yn gydweithredol gyda rheolwyr arbenigol eraill o fewn y tîm, a'r Cyfarwyddiaethau Ariannol a Gwasanaethau Corfforaethol ehangach ac yn eu cynorthwyo o dro i dro gydag unrhyw waith neu brosiect arbennig fel y maen nhw'n cael eu haseinio.

Wrth gwrs, bydd hefyd angen i chi weithio o fewn polisïau a gweithdrefnau'r Gronfa a'r ddeddfwriaeth angenrheidiol, a hynny mewn ffordd sy'n unol â'n gweledigaeth ac egwyddorion. Os yw'r rôl yng Nghymru, neu'n cefnogi cwsmeriaid neu gydweithwyr yng Nghymru, mae dealltwriaeth o ddeddfwriaeth yr iaith Gymraeg a Safonau Iaith Gymraeg y Gronfa'n ofynnol.

### *Eich profiad*

Fel rheolwr, efallai y byddwch wedi cael dyrchafiad trwy ein llwybrau gyrfaoedd mewnol wedi i chi ddangos eich sgiliau a'ch galluoedd arwain, neu fe allwch wedi dod o faes allanol. Y naill ffordd, bydd angen i chi ddangos eich profiad a'ch cymwysterau yn y meysydd hyn:

- Cyfreithiwr neu fargyfreithiwr cymwys yn y DU, neu gyfwerth
- O leiaf pum mlynedd o brofiad perthnasol mewn practis preifat neu adran Gyfreithiol fewnol mewn sefydliad canolig/mawr
- Y gallu i weithio'n fanwl iawn a sgiliau drafftio a thrafod telerau da
- Sgiliau cyfathrebu a rheoli cleientiaid da a'r gallu i ddylanwadu ar drafodaethau anodd a'u rheoli
- Y gallu i reoli sawl gorchymyn a blaenoriaeth gyda sgiliau trefnu a rheoli amser da
- Y gallu i ddirnad cysyniadau cyfreithiol newydd yn gyflym
- Chwaraewr tîm gyda sgiliau rhyngbersonol gwych a bod yn hyfforddwr a mentor i eraill
- Y gallu i ddefnyddio menter eich hun i wella ffyrdd o weithio'n rhagweithiol

### *Byddwch chi'n gallu*

# Uwch Gyfreithiwr

**ARWEINYDDIAETH A RHEOLI**

- Ymgysylltu â chydweithwyr a rhanddeiliaid i greu ymrwymiad i amcanion a sicrhau cyflwyno
- Bod yn rheolwr hyblyg a hyderus sy'n fodel rôl ar gyfer gweledigaeth ac egwyddorion y Gronfa bob dydd
- Adnabod cryfderau unigol a thîm, gan fynd i'r afael â gofynion datblygu i gyflawni amcanion
- Datblygu amgylchedd gwaith cadarnhaol sy'n cefnogi eraill i ymgysylltu a chael eu grymuso i lwyddo

**MEITHRIN PERTHNASOEDD GWYCH**

- Meithrin perthnasoedd a rhwydweithiau cadarnhaol o fewn a thu allan i'r Gronfa i gefnogi cyflawni amcanion
- Dangos sgiliau cyfathrebu uwch gan gynnwys rhwydweithio, trafod a chyflwyno i amrywiaeth o gynulleidfaoedd
- Cwestiynu a gwrando er mwyn deall anghenion cwsmer a rhanddeiliaid , gan adnabod themâu cyffredin sy'n cefnogi eich penderfyniadau a gweithredoedd

**CYFRIFOLDEB PERSONOL**

- Blaenoriaethu a bod yn fodel rôl ar gyfer dysgu parhaus a hunanddatblygiad, gan ofyn am adborth i wella perfformiad eich hun a'r tîm
- Bod yn hyderus ac yn ddigynnwrf o dan bwysau, a dylanwadu'n gadarnhaol ar eraill yn ystod adegau o newid
- Ceisio gwaith a heriau'n weithredol a llywio cyflawniad amcanion eich hun a'r tîm, gan gefnogi ac annog eraill i wneud yr un peth

**CYFLWYNO**

- Parodrwydd i rannu dysgu, mewnwelediad, sgiliau ac adnoddau i gefnogi gweithgareddau busnes
- Defnyddio technoleg i greu gwasanaeth gwell i gwsmeriaid a rhanddeiliaid
- Casglu, dadansoddi a dehongli data a gwybodaeth i hysbysu penderfyniadau am waith eich hun a'r tîm
- Deall a dehongli'r cyd-destun mewnol ac allanol wrth reoli a chynllunio gweithgareddau busnes
- Monitro trefniadau llywodraethu, gan ddarparu datrysiadau i risgiau a phroblemau a sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu ar gyfer gwaith yn y dyfodol

***Ein meddylfryd***

- Rwy'n angerddol am botensial gwneud grantiau ardderchog
- Rwy'n ymroddedig i rwydweithio effeithiol ar draws a'r tu hwnt i'r Gronfa
- Rwy'n gwerthfawrogi amrywiaeth a dyheadau cymunedau a chydweithwyr gan gydnabod yr angen i gyflwyno cyfle cyfartal
- Rwy'n gywrain ac yn chwilio o ddifrif am ffyrdd newydd o wneud pethau
- Byddaf yn gwrando, dysgu, darparu ac annog adborth a her
- Rwyf yn gyfrifol ac yn atebol am y gwaith a wnaf
- Rwy'n gweithio'n hyblyg ac yn gydweithiol i ddiwallu anghenion eraill
- Rwy'n defnyddio gwybodaeth a phrofiad i rannu fy nysgu
- Rwyf eisiau gwneud y Gronfa yn lle gwych i weithio ynddo

# Uwch Gyfreithiwr

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Eich teulu swydd yw** | Gwasanaethau Corfforaethol | **Eich cyfarwyddiaeth yw** | Gwasanaethau Corfforaethol |
| **Eich dull gweithio yw** | Swyddfa | **Eich templed rôl yw** | Rheolwr |